# Polisi Cymeradwyaeth Foesegol Prifysgol

## Cyflwyniad

Mae Prifysgol Wrecsam wedi ymrwymo i gynnal y safonau gorau posibl o foeseg, manwl gywirdeb, a gonestrwydd yn ei holl ymchwil, ac yn ceisio diogelu urddas, hawliau a llesiant y rheiny ynghlwm â'r ymchwil a gynhyrchir. Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn, mae'r Brifysgol yn gofyn bod yr holl ymchwil a wneir dan ei nawdd, sy'n cynnwys cyfranogwyr dynol, deunydd dynol, data personol, anifeiliaid, neu ymchwil, a all gael effaith ar yr amgylchedd, yn derbyn cymeradwyaeth moeseg ymchwil cyn dechrau'r ymchwil. Ni all Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol ddarparu cymeradwyaeth ôl-weithredol o gynigion ymchwil. Os byddwch yn casglu data cyn cael cymeradwyaeth, ni allwch ei ddefnyddio, ac efallai y bydd angen cynnal ymchwiliad i gamymddygiad ymchwil posibl.

## Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn cynnig fframwaith i sicrhau y gwneir yr holl ymchwil yn unol ag egwyddorion moesegol craidd. Mae'r un mor berthnasol i brosiectau a wneir gan staff neu fyfyrwyr y Brifysgol mewn unrhyw leoliad, gan gynnwys gwaith ar y cyd, gyda sefydliadau trydydd parti. Dylid dehongli ymchwil yn eang i gynnwys yr holl ymchwiliadau sy'n cael eu gwneud dan nawdd y Brifysgol, sy'n cynhyrchu gwybodaeth, dealltwriaeth neu asesiad, boed wedi'i ariannu neu ddim.

## Egwyddorion

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod ei gweithgareddau ymchwil sy'n cynnwys cyfranogwyr dynol, deunydd dynol, data personol, anifeiliaid neu ymchwil a all gael effaith ar yr amgylchedd, yn cael eu gwneud mewn ffordd sy'n parchu hawliau, urddas a llesiant pawb sy'n cymryd rhan. Mae egwyddorion arweiniol y Brifysgol wedi'u hamlinellu fel a ganlyn.

1. Dylai ymchwil geisio gwella'r buddion i unigolion a chymdeithas a lleihau risg a niwed posibl. Dylid lliniaru'r holl risgiau a niwed posibl gyda rhagofalon llym a dylid rhybuddio'r holl gyfranogwyr cyn iddynt gymryd rhan.
2. Lle bo'n bosibl, rhaid i holl gyfranogwyr ymchwil gymryd rhan yn wirfoddol, heb unrhyw orfodaeth na dylanwad gormodol. Dylid parchu a gwarchod eu hawliau, eu hurddas a'u hannibyniaeth mewn modd priodol.
3. Rhaid parchu cyfrinachedd y wybodaeth a ddarperir gan gyfranogwyr ymchwil, ac anhysbysrwydd ymatebwyr. Lle bo'n bosibl, dylid gwneud data yn ddienw, a dylid cydymffurfio'n llawn ag egwyddorion Deddf Diogelu Data 2018. Gellir trafod data dim ond pan mae'r caniatâd i wneud hynny'n rhan o'r weithdrefn gydsynio.
4. Dylid cynnal annibyniaeth ymchwil, ac os na ellir osgoi gwrthdaro buddiannau, dylid eu gwneud yn glir.
5. Dylid dylunio, adolygu a gwneud ymchwil er mwyn sicrhau bod safonau uniondeb cydnabyddedig yn cael eu bodloni, ac y sicrheir ansawdd a gonestrwydd.
6. Mae'n rhaid i'r ymchwil gyd-fynd â'r holl ofynion statudol perthnasol, a gofynion y sefydliad lle gwneir y gwaith ymchwil.

## Cyfrifoldebau

Mae Pwyllgor Ymchwil y Brifysgol yn gyfrifol am ddarparu polisi a chanllawiau ynghylch moeseg ymchwil a chywirdeb ymchwil, gan sicrhau bod proses effeithiol a chadarn ar waith.

Mae pwyllgorau moeseg ymchwil y Brifysgol yn gyfrifol am hyrwyddo buddiannau cyfranogwyr mewn ymchwil drwy adolygu ceisiadau sy'n gofyn am gymeradwyaeth moeseg ymchwil, a sicrhau eu bod nhw'n cael eu cwblhau yn unol ag egwyddorion, polisïau a gweithdrefnau moeseg ymchwil y Brifysgol.

Mae aelodau staff yn gyfrifol am ystyried goblygiadau moesegol eu prosiectau ymchwil, gwneud eu hymchwil yn unol ag egwyddorion a gweithdrefnau'r Brifysgol, a chael cymeradwyaeth moeseg ymchwil ffurfiol gan y pwyllgor moeseg ymchwil perthnasol cyn dechrau arni.

Mae'r Goruchwyliwr yn gyfrifol am sicrhau bod y cyfrifoldebau uchod yn cael eu bodloni o ran ymchwil a wneir gan fyfyrwyr israddedig neu ôl-raddedig.

## Proses Adolygu

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu proses adolygu foesegol annibynnol sy'n gymesur â'r risgiau sy'n bosibl. Mae'r broses hon yn cynnwys amrywiaeth o weithdrefnau ar gyfer mathau penodol o geisiadau. Gellir dod o hyd i'r holl weithdrefnau perthnasol ar ddiwedd y polisi hwn.

### *Ymchwil sydd eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth foesegol*

Bydd angen cymeradwyaeth foesegol gan y Brifysgol ar gyfer ymchwil sydd eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth gan bwyllgor moeseg ymchwil cydnabyddedig arall. Fel arfer, bydd Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol yn adolygu ac yn cymeradwyo'r ceisiadau hyn drwy gydnabod y gymeradwyaeth a'r ddogfennaeth a gyflwynwyd gan y pwyllgor moeseg allanol.

### *Cymeradwyaeth Cydnabyddedig y GIG*

Bydd ymchwil sy'n gofyn am weithdrefnau adolygu moesegol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol angen cyflwyno cais drwy'r System Ymgeisio Integredig ar gyfer Gwaith Ymchwil (IRAS). Mewn achos o'r fath, bydd y Brifysgol yn goruchwylio'r broses hon, ac nid oes angen cael cymeradwyaeth foesegol ychwanegol gan un o Bwyllgorau Moeseg Ymchwil y Brifysgol.

### *Ymchwil sy'n Cynnwys Anifeiliaid ac Effaith Amgylcheddol*

Noder, nid oes gan Brifysgol Wrecsam drwydded sefydliad sy'n ofynnol dan Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986. Dylai unrhyw ymchwil gan staff neu fyfyrwyr sy'n cynnwys anifeiliaid, neu ymchwil a all effeithio ar yr amgylchedd, dderbyn cymeradwyaeth foesegol gan y Brifysgol ymlaen llaw, a chyfeirio at y gweithdrefnau perthnasol.

## Adrodd am Ddigwyddiadau Niweidiol

Dylai’r holl staff a myfyrwyr fod yn gyfarwydd â'r weithdrefn adrodd am ddigwyddiadau andwyol cyn dechrau unrhyw ymchwil.

## Apeliadau

Os gwrthodir cais gan un o Bwyllgorau Moeseg Ymchwil y Brifysgol, neu mae'r ymgeisydd yn credu bod yr amodau neu'r addasiadau y gofynnwyd amdanynt gan y pwyllgor yn annerbyniol oherwydd rhesymau ymchwil cyfiawnadwy, gall yr ymgeisydd apelio penderfyniad yr adolygiad. Gellir dod o hyd i fanylion pellach am y broses hon yn y Weithdrefn Apelio Moeseg Ymchwil.

## Torri Polisi a Chwynion

Bydd y Brifysgol yn ystyried unrhyw doriad o'r polisi hwn, neu unrhyw doriad o delerau y cytunwyd arnynt ar gyfer prosiect, yn fater difrifol a all arwain at roi gweithrediadau camymddygiad ymchwil ar waith. Dylid adrodd achosion o doriadau a dybir i Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol rescadmin@glyndwr.a.cuk a all, dan yn rheoliadau, wrthod, gohirio neu dynnu cymeradwyaeth ymchwil yn ôl, boed yn rhan o weithdrefnau disgyblu neu fel arall.